



ANTUR NANTLLE CYF

Gweithio er lles yr Ardal

ADRODDIAD BLYNYDDOL

2012 – 2013

Llun clawr gan Iestyn Roberts – www.iestynroberts.com
golygfa o Ddyffryn Nantlle o ben Mynydd Mawr

Cynnwys

Gair gan y Cadeirydd	2
Y Bwrdd Rheoli.....	4
Pwyllgor Eiddo a Thenantiaeth Antur Nantlle	7
Pwyllgor Diwydiant ac Economi Antur Nantlle	20
Diwedd glo.....	24
Cyfrifon Blynyddol Antur Nantlle Cyf 2012 – 2013	25

Gair gan y Cadeirydd

Mae'n anodd credu fod blwyddyn gyfan wedi mynd ers i mi gyflwyno Adroddiad Blynnyddol y llynedd i chi. Mae'n siŵr mai'r holl brysurdeb sydd i gyfri am hynny! Beth bynnag, mae'n bleser gen i gyflwyno Adroddiad Blynnyddol Antur Nantlle i chi am y flwyddyn 2012 - 2013. Dyma grynodedb o waith Antur Nantlle yn ystod y flwyddyn ddiwethaf gan gynnwys yr adroddiad ariannol hefyd. Fel y crybwyllais yn barod, blwyddyn brysur ond ddigon cymysglyd fu'r llynedd i'r Antur wrth i ni wynebu rhai anawsterau annisgwyl, ond eto weld cyfleoedd da i ymestyn ein gweithgarwch yn y Dyffryn. Rhaid i ni gofio mai **prif nod yr Antur yw gweithio er budd a lles yr ardal** er mwyn hybu cyfle gwaith a chryfhau'r economi leol.

Yn gyntaf, hoffwn ddiolch i Robat am ei waith egniol yn ystod y flwyddyn. Rydym yn ffodus iawn o gael Prif Swyddog mor ymroddedig a chydwybodol. Mae lle yr Antur a dyfodol y gymuned yn agos iawn at ei galon. Diolch am bopeth, Robat.

Braf yw gallu adrodd fod pob un o unedau'r Antur wedi eu llenwi ar hyn o bryd a phobl yn holi am fwy o unedau i'w rhentu. Oherwydd y galw cynyddol am lefydd mae'n rhaid i'r Antur symud ymlaen i chwilio am ffyrdd o ddarparu mwy o unedau. Os gwiredir ein cynlluniau presennol bydd modd i'r Antur symud ymlaen mewn sefyllfa gadarnach i gynnig mwy o gyfleoedd i drigolion yr ardal.

Cofiwch mai ym meddiant yr Antur mae'r adeiladau ble ceir y Banc a'r Llyfrgell. Dyma ddau adnodd sydd yn bwysig iawn i gymuned Dyffryn Nantlle a byddai colli'r rhain yn gryn ergyd i ni i gyd. Llongyfarchiadau i Siwsan Broda y Llyfrgellydd ar ei gwaith yn gwneud y llyfrgell yn un o'r rhai mwyaf llwyddiannus yng Ngwynedd. Ond mater o bryder i'r Antur, fel i weddill trigolion Dyffryn Nantlle, yw dyfodol y Swyddfa Bost ym Mhenygroes; byddai cau hon yn ergyd andwyol i'r ardal a'i thrigolion. Gobeithio y gall yr Antur wneud rhywbeth i arbed y sefyllfa fel bo gan Penygroes a'r ardal Swyddfa Bost ar gyfer y dyfodol.

Un o'n tenantiaid newydd y llynedd oedd Rhian Roberts agorodd siop flodau 'Tusw' yn Heol y Dŵr. Llongyfarchiadau iddi am fentro ac rydym yn ymfalchïo, fel Antur, yn ei llwyddiant gan ddymuno'n dda iddi ar ei menter i agor siop flodau arall ym Mangor.

Cofiwch fod yr Antur yn cynnig telerau arbennig i bobl ifanc lleol sydd yn awyddus i gychwyn busnes. Gellir cael uned am ddau fis yn ddi-rent i roi cychwyn i'r fenter, a braf iawn yw gweld rhai wedi manteisio ar y cynllun hwn.

Llwyddodd yr Antur i gael grant at wneud astudiaeth dichonoldeb at gynllun i weddnewid gwesty'r Victoria, Penygroes yn Ganolfan Gymunedol a chefnogol i'r Dyffryn. Mae yna lawer o waith i'w wneud eto, yn enwedig denu grantiau i ddatblygu'r prosiect. Mae'r Antur yn awyddus iawn i droi'r safle, sydd ar hyn o bryd yn boen i bawb, yn ganolbwynt i Ddyffryn Nantlle fydd yn adnodd cymunedol, cymdeithasol ac economaidd i drigolion y Dyffryn.

Mae'r cynllun Hydro wedi ei ddileu gan fod yna anawsterau dybryd wedi codi wrth inni symud ymlaen fyddai'n achosi llawer o drafferthion. Mae hyn yn siom fawr i'r Antur pan ystyriwn ein bod wedi treulio tros dair blynedd yn gweithio ar y cynllun gan ddilyn pob cyfarwyddyd a chynghor yn ofalus gan nifer o asiantaethau. Mae hyn yn ein tristau gan y byddai'r elw o'r cynllun wedi ei ddefnyddio er budd datblygu mwy o brosiectau er lles yr ardal a'i thrigolion. Ond, mae'n rhaid i'r Antur edrych i'r dyfodol ac am gyfle arall i ddod a budd i'r Dyffryn, a daw 2014 a'r cyfle i ni wneud hynny.

Mae fy niolch yn fawr iawn i bawb sydd wedi gweithio dros Antur Nantlle yn ystod y flwyddyn ddiwethaf; yn weithwyr, tenantiaid cyfarwyddwyr a chefnogwyr. Mae'n waith anodd ar adegau ond braf yw gweld fod pawb o fewn yr Antur yn gweithio fel un tîm a hynny i hybu ein gwaith er lles pobl y Dyffryn.

Diolch yn fawr,

Ifan Glyn Jones
Cadeirydd

Y Bwrdd Rheoli



*Ifan Glyn Jones,
Cadeirydd*



*Emrys Jones,
Is-Gadeirydd*




OP Huws



Dafydd Owen



Talfryn Griffiths



John Pritchard



Gwynne Williams



Cyng. Dyfed Edwards



Elwyn Jones Griffith



Richard Wyn Huws



Myrddin Williams



Owain Rowlands



Cyng. Craig ab Iago



Gwion Owain

Aelodau'r Bwrdd Rheoli

Ifan Glyn Jones (Cadeirydd)	Cynghorydd Cymuned a Phrifathro wedi ymddeol
Emrys Jones (Is-gadeirydd)	Prif Swyddog Tân Cynorthwyol wedi ymddeol
O P Huws	Cyn Gynghorydd Gwynedd a gŵr busnes
Dafydd Owen	Cyfarwyddwr Gwasg Dwyfor
Talfryn Griffiths	Cyfreithiwr
John Pritchard	Cyfrifydd
Gwynne Williams	Peiriannydd gwresogi
Dyfed Wyn Edwards	Arweinydd Cyngor Gwynedd
Elwyn Jones Griffith	Cynghorydd Cymuned a Phrifathro wedi ymddeol
Richard Wyn Huws	Gŵr camera proffesiynol a gŵr busnes
Myrddin Williams	Swyddog Cyngor Gwynedd
Owain Rowlands	Rheolwr Lleoliadau Digwyddiadau
Craig ab Iago	Cynghorydd Gwynedd a Swyddog Prosiect Bwyd
Gwion Owain	Hunan gyflogedig

Ysgrifennydd y Cwmni

Robat Jones

Cyfarfodydd

Cynhaliwyd 6 chyfarfod o Fwrdd Rheoli Antur Nantlle yn ystod y flwyddyn ynghyd a chyfarfodydd o'r Grŵp Cyllid a'r Panel Personél. Cyfarfu'r Pwyllgor Eiddo a Thenantiaeth, ac is-grwpiau'r Pwyllgor Diwydiant ac Economi sef y Grŵp Twristiaeth, y Grŵp Hydro a Grŵp y Fic yn gyson hefyd.

Cynhaliwyd y Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol ar 15^{fed} o Dachwedd 2012.

Yn unol â'r drefn ymddeolodd pedwar o gyfarwyddwyr o'r Bwrdd – Myrddin Williams, Ifan Glyn Jones, Richard Wyn Huws ac OP Huws.

Ail etholwyd y pedwar.

Staff Antur Nantlle

Robat Jones	Prif Swyddog Antur Nantlle
Bet Hughes	Gofalwraig y Ganolfan Dechnoleg
Nerys Jones	Gofalwraig y Ganolfan Fenter
Nia Noone	Gofalwraig Tŷ Iorwerth

Bancwyr

HSBC, Cangen Caernarfon.

Ardal Antur Nantlle

Mae Antur Nantlle Cyf yn gweithredu yn ardal Dyffryn Nantlle a'r pentrefi cyfagos sy'n cynnwys: Carmel, Clynnog Fawr, Dinas Dinlle, Y Fron, Y Groeslon, Llandwrog, Llanllyfni, Nantlle, Nasareth, Nebo, Penygroes, Pontllyfni, Talysarn, Tanrallt.



Robat Jones

Cyflawniadau 2012 - 2013

<i>Swyddi wedi eu creu neu eu gwarchod</i>	56
<i>Nifer wedi cael budd o'r gwasanaethau a gynigir</i>	2,250
<i>Nifer a dderbyniodd hyfforddiant</i>	58
<i>Mudiadau, cynlluniau a gweithgareddau cymunedol wedi cael cefnogaeth</i>	14

Cyfarfod, Trafod a Chydweithio gyda

Cyngor Gwynedd, Y Ganolfan Waith, Coleg Harlech / WEA, Prifysgol Cymru Bangor, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, Canolfan Cydweithredol Cymru, Llywodraeth y Cynulliad, Amgylchedd Cymru, Bwrdd yr Iaith, Grŵp Gwefan Dyffryn Nantlle, Mantell Gwynedd, Cymorth i Ferched Cymru, Cymdeithas Tai Eryri, Ysgol Dyffryn Nantlle, Heddlu Gogledd Cymru, Grŵp Llys Llywelyn, Grŵp Canolfan Cymdeithasol Talysarn, Gŵyl Fai Dyffryn Nantlle, Cyngor Cymuned Llanllyfni, Cyngor Cymuned Llanwnda, Cyngor Cymuned Llandwrog, Dyffryn Nantlle 20:20, Menter Llyfni, Grŵp Mynd Amdani, Neuadd Goffa Penygroes, Annog Cyf, Parc Cenedlaethol Eryri, Grŵp Llandrillo Menai, Cyfoeth Naturiol Cymru, Ymddiriedolaeth Arbed Ynni, Consortiwm Rhif 10, Grŵp Adfywio Dinas Dinlle, Prosiect B3, TJB Cymru, Cywain, Tudor Trust, Y Loteri Genedlaethol, Menter Môn, Cyfenter a nifer o grwpiau a chymdeithasau eraill yn y gymuned.

Pwyllgor Eiddo a Thenantiaeth Antur Nantlle

(Cadeirydd – Emrys Jones)

Pwyllgor Eiddo a Thenantiaeth Antur Nantlle sy'n cadw llygad ar holl eiddo'r Antur, yn cynnal, cadw ac uwchraddio er mwyn sicrhau'r gwerth gorau am arian i'n tenantiaid. Dyma'r pwyllgor sy'n trin a thrafod ceisiadau am unedau'r Antur a braf yw adrodd fod bob un o'n hunedau a'n swyddfeydd yn parhau yn llawn, sy'n dangos y galw am lefydd gwaith yn ardal hwylus Dyffryn Nantlle.

Mae cyfraddau rhenti swyddfeydd ac unedau busnes yr Antur yn parhau i fod yn gystadleuol ac yn rhesymol iawn, ac fel rhan o'n polisi i gefnogi menter yn yr ardal leol, bu'r Antur yn falch iawn o roi hwb i fusnesau newydd drwy roi dau fis o rent yn rhad ac am ddim iddynt.

Rydym o hyd yn awyddus i gydweithio efo unrhyw gorff neu asiantaeth sy'n gweithredu i hybu menter a chreu cyfleon gwaith a hyfforddiant yn ardal Dyffryn Nantlle, felly mae ein hystafelloedd hyfforddiant a chyfarfod ar gael i unrhyw un sydd eisiau cynnal gweithgareddau o'r math yma.

Canolfan Dechnoleg Antur Nantlle

20 Heol y Dŵr, Penygroes, Gwynedd LL54 6LR

01286 882688 technoleg@anturnantlle.com



Yn y Ganolfan Dechnoleg mae prif swyddfa Antur Nantlle, sydd ar agor ar y llawr cyntaf rhwng 9yb – 5yp yn ddyddiol a lle mae croeso i unrhyw un alw heibio.

Roedd Canolfan Dechnoleg Antur Nantlle yn ddatblygiad arloesol yn 1990au – y cyntaf o'i fath yn yr ardal. Yn wir, yn seiliedig ar gynllun ein Canolfan Dechnoleg ni y sefydlwyd canolfannau dysgu gydol oes Cyngor Gwynedd. Dros y blynnyddoedd, gwelwyd newidiadau mawr mewn darpariaeth gyfrifiadurol a'r galw am wahanol fath o hyfforddiant yn y maes.

Unwaith eto eleni fe gynhaliwyd amrywiol gyrsiau yn yr ystafell hyfforddiant. Diolch i Goleg Harlech / WEA am gydweithio ers y cychwyn cyntaf hyd heddiw i gynnig darpariaeth safonol o hyfforddiant cyfrifiadurol ym Mhenygroes. Cynhaliwyd cyrsiau cyfrifiadurol sylfaenol yma yn ogystal â chysiau i rai mwy profiadol, yn dysgu amrywiaeth eang o sgiliau yn cynnwys gweithdai digidol, defnyddio'r we ac e-bost yn ddiogel ac effeithiol, creu cyflwyniadau, a llawer mwy.

Cafwyd amryw o sesiynau ar hel achau, siopa ar-lein a defnyddio'r we ar gyfer talu biliau ayb. yn y Llyfrgell gan Tegid o Gyngor Gwynedd. Yn ogystal, gwnaed defnydd o'r cyfleusterau i gynnal amryw o gyrsiau ar gyfer Cymorth i Ferched Cymru, Tai Eryri, y Ganolfan Byd Gwaith a sawl sefydliad arall.

Mae cwrs Cymraeg i Oedolion dan oruchwyliaeth Grŵp Llandrillo Menai wedi mynd o nerth i nerth ac wedi ei sefydlu yn bendant ar galendr wythnosol y Ganolfan Dechnoleg. Braff yw cael cynnig gwasanaeth o'r fath yma i ddysgwyr lleol yng nghanol y pentref.

Diolch i Adran TG y Cyngor am wasanaethu ein rhwydwaith gyfrifiaduron ac i'r Ddesg Gymorth am drefnu a gofalu fod y neges yn eu cyrraedd.

Mae modd llogi'r ystafell hyfforddiant, yn ogystal â chymryd mantais o'n gwasanaeth 'desg dros dro' am bris rhesymol, ac rydym yn parhau i fod yn bwynt ailgylchu papur o bob math a chetris cyfrifiaduron drwy ddefnyddio gwasanaeth Antur Waunfawr.

Diolch yn fawr i Bet Hughes am gadw swyddfeydd y Ganolfan Dechnoleg, y Llyfrgell a Siop 22 yn lân ac yn dwt bob amser.

Llyfrgell Penygroes

Llyfrgellydd - Siwsan Broda

01286 880427 LLPenygroes@gwynedd.gov.uk

Mae'r Llyfrgell yn adnodd hanfodol ym Mhenygroes, er budd holl drigolion Dyffryn Nantlle. Fel lle sy'n cynnig mynediad at gatalog enfawr o lyfrau, cylchgronau, DVDs a gemau fideo, mae yma rywbeth at ddant bawb. Mae mynediad i'r rhyngwyd drwy ddefnydd y cyfrifiaduron cyhoeddus, ac mae'r cyflenwad bandeang diwifr sydd yn yr adeilad hefyd yn boblogaidd ofnadwy.





Dros yr Haf, cynhaliwyd nifer o sesiynau crefft ac amser stori, gyda phlant o bob oed yn cael y cyfle i fwynhau profiadau creadigol yn eu hardal leol.

Roedd ymateb da iawn i sialens ddarllen yr Haf unwaith eto, a braf yw cael cofnodi fod cymaint o blant a phobl ifanc y Dyffryn yn cymryd diddordeb yn eu Llyfrgell leol ac yn ddarllenwyr brwdfrydig. Yn ystod tymor yr ysgol, ar ôl hanner awr wedi tri'r prynhawn, golygfa gyffredin iawn yn y Llyfrgell yw gweld disgyblion ysgol yn gwneud eu gwaith cartref yn gydwybodol.

Enillodd Llyfrgell Penygroes y wobr am y cynnydd mwyaf o fenthycwyr o holl Lyfrgelloedd Gwynedd yn ystod

2012-2013, yn cynnwys plant ac oedolion. Calonogol iawn yw deall fod y Llyfrgell yn apelio i bobl a phlant o bob oed, a hyderwn bydd y duedd yn parhau.

Ar ben hyn oll, mae'r Llyfrgell yn le sy'n cynnig gwasanaeth cymunedol. Mae pawb a ddaw drwy'r drws yn siŵr o dderbyn croeso cynnes a gwasanaeth clodwiw gan Siwsan Broda, Llyfrgellydd Penygroes, neu Anwen. Pleser yw i Antur Nantlle allu cydweithio gyda'r gwasanaeth pwysig hwn er lles yr ardal.

Gwasanaeth Adfywio Bro Gwyrfai a Nantlle, Cyngor Gwynedd

Swyddog Adfywio Bro – Kelvin Roberts

01286 882968 kelvinroberts@gwynedd.gov.uk

Mae Kelvin wedi bod yn Swyddog Adfywio dros fro Dyffryn Nantlle ers 9 mlynedd erbyn hyn. Nod y cynllun Adfywio Bro yw cefnogi pobl leol i gyfrannu tuag at adfywio eu cymunedau trwy brosiectau economaidd, cymunedol, amgylcheddol a chymdeithasol.

Dros y flwyddyn ddiwethaf mae Kelvin wedi parhau i roi cefnogaeth i nifer helaeth o grwpiau, pwyllgorau a sefydliadau lleol drwy roi cyngor; helpu yn ymarferol i baratoi cynlluniau, dogfennau cymdeithasu a cheisiadau grant; a chydweithio efo adrannau eraill



Cyngor Gwynedd i sicrhau fod Dyffryn Nantlle yn elwa cymaint â phosib o unrhyw ddatblygiadau. Mae wedi bod yn rhan allweddol o grŵp gweithgar yn Nhalysarn sydd wedi llwyddo i ddenu grant o £155,000 i'r ardal tuag at sefydlu trac BMX yn y pentref, a mawr obeithiwn weld y prosiect yn datblygu yn fuan er budd pobl ifanc yr ardal.

Unwaith eto, mae diolch yr Antur i Kelvin yn fawr. Mae ei gymorth a'i gyngor gyda'n cynlluniau Ynni Adnewyddol Hydro, Diwydiant ac Economi, Y Fic a mwy yn hanfodol bwysig. Mae ei wybodaeth am ffynonellau cyllid a chymorth ychwanegol yn rhoi hyder i bob grŵp y mae'n gweithio gyda hwy. Mae Gwasanaeth Adfywio Cyngor Gwynedd yn un na ellir dychmygu bod hebdo, ar ein taith hir o weithio tuag at adfywiad Dyffryn Nantlle.

Os oes gennych chi syniad i wella eich cymuned a diddordeb mewn sefydlu menter gymunedol newydd, neu os ydych yn ymwneud â menter gymunedol sydd angen cefnogaeth, cysylltwch â Kelvin. Mae ei arbenigedd yn ei faes wedi helpu nifer o fentrau i sefydlu, datblygu a ffynnu er lles yr ardal leol.

Canolfan Fenter Dyffryn Nantlle ***Ffordd Llanllyfni, Penygroes, Gwynedd LL54 6DB***



Dyma gartref cyntaf yr Antur ac yma bu'r Swyddogion yn gweithio rhwng 1991 a 1999 pryd y symudwyd i'r Ganolfan Dechnoleg. Mae'r unedau bychain ar y safle wedi gweld amrywiaeth hynod o fusnesau bach yn mynd a dod ers amser agor y Ganolfan ac wedi bod yn llawn i gyd bron ers hynny.

Fel arfer, mae'r ystafell gyfarfod ar gael i'w llogi i gwmnïau ac asiantaethau allanol ar gyfer cyfarfodydd, cyrsiau ayb. am bris rhesymol, ond ar hyn o bryd rydym wedi gosod yr ystafell i gwmni Proarb sy'n ei ddefnyddio fel swyddfa i'r cwmni gan fod pob swyddfa arall yn llawn gennym.



Joe Spooner, Torwoods



Yn yr unedau heddiw mae modd prynu nwy potel a thrwsio eich offer torri gwair gan gwmni Torwoods yn Uned 1; derbyn gwasanaethau plymio o safon uchel gan gwmni Andrew Roberts Cyf yn Uned 2; prynu rhannau a nwyddau ceir o bob math yn ogystal â thorri goriadau yn Celtic Auto Parts yn Unedau 3, 4 a 5; a llogi a thrwsio systemau PA gan CS Audio yn Unedau 6 a 7. Mae Castnets yn gwerthu offer pysgota yn Swyddfa 2, ac yn Swyddfa 1 mae Proarb – arbenigwyr coedyddiaeth sydd â'u swyddfa ardal yma. Yn yr lard mae Alan Jones a'i gwmni

Weldio AWJ, sy'n adnabyddus am ei waith da drwy'r ardal.



Braf iawn yw cael adrodd fod digon o amrywiaeth a bwrlwm fel arfer felly yn y Ganolfan Fenter.



Emma, Celtic Auto Parts

Andrew Roberts Ltd
Plumbing and Heating Engineers



Siop / Gweithdy, 35 Stryd yr Wyddfa, Penygroes LL54 6NG

Oriel Llun-Mewn-Ffrâm

01286 882056 meic@oriellunmewnffram.co.uk

Mae siop Meical Roberts – Llun Mewn Ffrâm – yn parhau i fod yn un o brif atyniadau Penygroes a Dyffryn Nantlle, gyda phobl yn teithio yma o bell i weld ei arddangosfeydd o waith celf gwreiddiol a phrintiau o waith rhai o artistiaid cyfoes gorau Cymru megis William Selwyn, Stephen John Owen, Aneurin Jones, Keith Bowen, Keith Andrew, Carys Bryn a Diane Williams.

Mae Meical hefyd yn cefnogi artistiaid lleol drwy eu hannog i ddangos eu gwaith yn yr oriel ac yn gwerthu



nifer o grefftau, gwaith coed a llechi, cardiau cyfarch, crysau, cerddoriaeth Gymreig, hwdis a mwy.

Dyma'r lle i fynd am wasanaeth fframio o safon uchel heb son am y croeso a phaned sydd wastad ar gael gan Meical.

Mae waliau'r oriel werth eu gweld, wedi eu haddurno gydag amrywiaeth o luniau yn ogystal â geiriau rhai o ganeuon a cherddi mwyaf arwyddocaol y Gymraeg wedi eu hysgrifennu gan y cyfansoddwyr a'r beirdd eu hunain.



Mae yma gelf a chrefft o safon uchel iawn ac mae'r siop wastad wedi ei chyflwyno yn ddeniadol iawn. Os am anrheg ar gyfer unrhyw achlysur neu rywbeth arbennig i'ch cartref, cofiwch alw heibio - chewch chi mo'ch siomi!

Fflat, 35 Stryd yr Wyddfa, Penygroes LL54 6NG

Mae'r Antur yn arbenigo mewn gosod unedau gwaith i fusnesau lleol am delerau rhesymol, ond pan ddaeth y cyfle i allu cynnig lle i fyw i bobl leol hefyd, roedd yr Antur yn falch iawn i wneud hynny.

Wedi ei adnewyddu i safon uchel yn ystod Haf 2010, mae'r fflat ac yn le braf a chyfleus iawn i fyw.

Gwnaed ychydig o waith cynnal a chadw ar yr adeilad yn ystod y flwyddyn, i sicrhau ein bod yn parhau i ddarparu cartref o safon i'n tenant.



'Siop 22'

10 Heol y Dŵr, Penygroes, Gwynedd LL54 6LR

Mae adeilad 10 Heol y Dŵr ym Mhenygroes wedi ei leoli mewn man canolog yn y pentref ac yn cynnwys tair swyddfa ar y llawr uchaf a siop ar y llawr gwaelod. Mae Antur Nantlle yn falch o'r cyfle i gadw'r adeilad at ddefnydd busnes, a hynny ar un o brif strydoedd masnachol yr ardal.



Buddsoddwyd yn sylweddol yn Siop 22 eto, drwy osod ffenestri a drysau gwydr dwbl plastic yng nghefn yr adeilad. Gyda mân newidiadau eraill wedi eu gwneud yno, mae Siop 22 werth ei gweld, felly cofiwch alw heibio i weld beth sydd ar gael yno.

Y Siop

Ers agor ei ddrysau mae siop flodau Tusw wedi dod yn un o brif siopau Penygroes.

Mae Rhian Roberts yn ferch leol sy'n adnabyddus i bawb yn yr ardal, ac ati hi y dylai pawb fynd sy'n yn chwilio am flodau o safon uchel at unrhyw achlysur. Eleni, mae Rhian wedi buddsoddi mewn oergell pwrpasol i gadw ei blodau mewn cyflwr gwych ac fel man arddangos.



Mae'r siop werth ei gweld gydag amrywiaeth o flodau ffres ar gael bob dydd. Mae yma hefyd grefftau bach wedi eu gwneud â llaw, cardiau cyfarch Cymreig, blodau mewn potiau a mwy. Mae Tusw wedi ennill clod am eu gwasanaethau proffesiynol ar gyfer priodasau, angladdau, dathliadau a llawer mwy, yn ogystal ag am y nosweithiau difyr sy'n cael eu cynnal yno.

Ffoniwch Tusw ar 01286 882188 i drafod eich anghenion neu well fyth galwch heibio'r siop am sbec. Os am drefnu noson hwyliog a diddorol, dyma'r lle i ddod gyda chriw i ddysgu am y grefft o drin blodau.

Swyddfa 2

Mae cwmni Marc Roberts, sef Ymgynghori MARC Consultancy, wedi ei sefydlu ers bron i dair blynedd bellach. Mae Marc yn darparu cyngor strategol ac economaidd i fusnesau ac yn brofiadol iawn yn ei faes wedi gweithio fel Swyddog, Rheolwr ac Uwch Reolwr gyda nifer o wahanol asiantaethau yn cynnwys Awdurdod Datblygu Cymru, Cyngor Bwrdeistrefol Arfon a Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Mae'n arbenigo ar ddarparu cyngor economaidd a strategol, ac fel 'hogyn Dyffryn Nantlle' mae'n falch o gael gweithio yn ei ardal ei hun.

Marc fu'n gyfrifol am baratoi astudiaeth dichonoldeb ar y Fic ym Mhenygroes ar ran Antur Nantlle, a bu ei ymchwil a'i waith caled yn hanfodol bwysig wrth geisio datblygu'r prosiect yma. Mae'r gwaith yn dal i fynd yn ei flaen ar brosiect y Fic, ac mae cefnogaeth Marc yn parhau; mae'r Antur yn ddiolchgar iawn iddo am hynny ac yn mawr obeithio bydd modd gwireddu'r prosiect mawr hwn yn y dyfodol agos.

Mae Marc yn gwneud gwaith i nifer o fusnesau, grwpiau ac asiantaethau, ac yn weithgar iawn yn ei amser rhydd fel Swyddog y Wasg ar ran Clwb Pêl droed Tref Caernarfon.

Am gymorth gyda'ch busnes, ffoniwch Ymgynghori MARC Consultancy ar 01286 882677.



Swyddfa 3

David Davies yw tenant Swyddfa 3. Yma, mae'n darparu gwasanaethau hypnotherapi clinigol ar gyfer cleifion ac yn eu helpu gyda phob math o gyflyrau yn cynnwys gorbwysedd, ofnau dwys, pyliau o banig, pryder a mwy.

Gallwch gysylltu â David, aelod o Gymdeithas Hypnotherapi Clinigol Prydain, ar 07743 516711 neu www.dj-hypnotherapy.co.uk.



Swyddfa 4

Ein tenant yn Swyddfa 4 yw Justin Davies, sy'n rhedeg cwmni Dylunio Gringo Design. Mae Justin yn arbenigwr ar greu gwaith graffeg o bob math a phan nad yw'n perfformio gydag aelodau eraill ei fand llwyddiannus – Gwibdaith Hen Fran – mae'n darparu gwaith brandio, deunyddiau marchnata, argraffu, gwefannau a gwaith dylunio o'r safon uchaf i'w gleientiaid.

Cysylltwch â Dylunio Gringo Design ar 01286 882561 neu post@gringodesign.co.uk gyda'ch anghenion – mi fyddwch yn falch eich bod wedi gwneud hynny.



Mae'r Antur wedi cydweithio gyda Justin ar sawl prosiect yn ystod y flwyddyn yn cynnwys gwaith brandio ar gyfer Pecynnu'r Profiad (mewn cydweithrediad â grwpiau adfywio lleol eraill) a phrosiect hyrwyddo Penygroes gydag Uwch Warden Cefn Gwlad Cyngor Gwynedd - Mark Balaam. Bydd ffrwyth y gwaith yma i'w weld yn yr ardal yn fuan iawn, felly cadwch lygad allan am baneli a phamffledi twristiaeth lliwgar yn llawn gwybodaeth, yn ogystal â gwefan dwristiaeth newydd sbon; rhywbeth mae Grŵp Twristiaeth Antur Nantlle wedi bod yn anelu amdano ers tro.

Y Barics

Nantlle, Caernarfon, Gwynedd LL54 6BD

Hen 'farics' yn perthyn i Chwarel Penyrsedd oedd Y Barics ers talwm ond erbyn heddiw maent wedi eu troi yn unedau at ddefnydd y gymuned a busnesau bychain.

Cawsom gryn wariant ar y safle yma unwaith eto eleni wrth i ni gynnal a chadw'r adeiladau hanesyddol yma sydd dan reolau cadwraeth. Mae'r Antur yn ddiolchgar i'r Gwasanaeth Cadwraeth am eu cyngor a'u harweiniad.

Bu Allan Humphreys, gŵr busnes lleol yn brysur drwy gydol y flwyddyn yn torri'r gwair a'r coed ar y safle ar



ein rhan ac mae ein diolch iddo yntau yn fawr am gadw'r Barics mewn cyflwr da. Rydym yn falch iawn o allu rhoi gwaith rheolaidd i fusnes lleol.

Croesawyd tenant newydd i Uned 1, sef Gwasanaethau Ynni Willmott Dixon. Y cwmni yma sy'n gyfrifol am weithio gyda chartrefi a chymunedau ledled Cymru i leihau biliau ynni drwy raglen Arbed 2 a ariannwyd gan yr Undeb Ewropeaidd a Llywodraeth Cymru - rhaglen i wella effeithlonrwydd cartrefi o fewn ardaloedd penodol ar draws y wlad.



Canolfan Llys Llywelyn yn Uned 2 yw canolbwynt bywyd cymdeithasol pentref Nantlle gyda chriw prysur yn trefnu bob math o weithgareddau sydd yn dod â'r gymuned at ei gilydd. Mae'r Antur yn falch o allu cynnig safle o safon i ganolfan o'r fath. Os cewch gyfle i alw draw am banded a sgwrs, mae'n werth gwneud hynny.

Rydym yn y broses o gydweithio gyda Willmott Dixon a Llys Llywelyn i fanteisio ar y cyflenwad nwy sydd wedi cael ei osod yn Nantlle yn ddiweddar. Y bwriad yw gosod gwres canolog yn Uned 2 er mwyn lleihau costau gwresogi'r ganolfan gymunedol i'r dyfodol. Edrychwn ymlaen at weld y gwaith yma yn mynd yn ei flaen yn fuan.

Peter a Wendy Midwinter gyda 'Railways Unlimited' sydd yn Uned 3, sef cwmni yn trwsio, gwerthu a threfnu arddangosfeydd o drenau bach.

Mae'r arddangosfeydd manwl yma yn cymryd oriau maith i'w hadeiladau ac mae'r gwaith yn gywrain ofnadwy. Mae yma wlededd i unrhyw un sy'n frwdfrydig dros reilffyrdd a threnau.

Eleni, bu i waith Peter a Wendy gael ei arddangos yng nghylchgrawn Hornby.



Yn Uned 4 mae Dyfrig Peris a Jennie Corr yn rhedeg Peris a Corr; cwmni sy'n arbenigo mewn argraffu crysau-T a thecstilau organig. Mae'r cwmni yn cynnig gwasanaeth argraffu â sgrin hefo inciau dŵr - argraffu ar grysau-T, bagiau cynfas ayyb. Maent hefyd yn cynllunio tecstilau a chardiau cyfarch eu hunain, ac mae'r holl waith papur a chardiau cyfarch yn cael eu hargraffu ar bapur wedi'i ailgylchu.

Cysylltwch â Dyfrig a Jennie ar 01286 881787 neu gwybodaeth@perisandcorr.com.



Bill Pywell yw ein tenant yn Uned 5, ble mae wedi sefydlu gweithdy Gwaith Coed Gwyrdd. Mae Bill yn hen law ar greu dodrefn a chreiriau o bob math allan o goed, ac mae ei waith yn unigryw a thrawiadol iawn. Bu Bill yn arddangos yn rheolaidd yn ystod yr Haf mewn gwahanol wyliau crefft a da oedd clywed fod y tywydd braf wedi bod yn help mawr iddo apelio at gynulleidfa eang iawn eleni.

Mewn cydweithrediad â Choleg Harlech, mae Bill ar hyn o bryd yn rhedeg nifer o gyrsiau gwaith coed gwyrdd i ddysgu'r grefft a'r technegau i rai sydd â diddordeb.



Tŷ Iorwerth

39 Heol y Dŵr, Penygroes, Gwynedd LL54 6ES

Roedd dau lawr uchaf adeilad banc yr HSBC wedi bod yn wag ers blynyddoedd ac yn dirywio, hyd nes yn 2002 gwelodd Antur Nantlle gyfle i ddiwallu rhywfaint o'r gofyn am swyddfeydd yn lleol trwy chwilio am gyllid i brynu'r adeilad gan yr HSBC ac addasu'r ddau lawr uchaf yn saith swyddfa safonol i'w gosod sydd yn cyd-fynd â chanllawiau mynediad i'r anabl.

Erbyn heddiw mae'r swyddfeydd i gyd yn llawn a banc yr HSBC yn dal i weithredu ar y llawr isaf.



Y Banc



Mae gwasanaeth holl bwysig yr HSBC ar gael yn y pentref yn ddyddiol, wedi i'r Antur sicrhau parhad y banc ym Mhenygroes drwy gynnig rhent rhesymol i'r banc fel tenant. Gobaith pawb, yn drigolion ac yn fusnesau, ydyw y bydd y gwasanaeth yma am flynyddoedd i ddod gan fod y banc yn adnodd mor allweddol i drigolion a busnesau lleol.

Mae'r banc ar agor bob bore dydd Mawrth, dydd Iau a dydd Gwener rhwng 9.30yb – 12.00yp, a bob pŵn dydd Llun a dydd Mercher rhwng 12.30yp – 3.00yp.

Swyddfeydd 1-4

Llinell Gymorth Camdriniaeth yn y Cartref a Thrais Rhywiol Cymru Gyfan

O'u canolfan ym Mhenygroes mae llinell gymorth trais yn y cartref yn cynnig gwasanaeth cyfrinachol dwyieithog 24 awr y dydd i ferched, plant a dynion drwy Gymru gyfan.

Mae'r Llinell yn helpu ac yn arwain pobl sydd â phrofiad o gamdriniaeth yn y cartref neu drais rhywiol, yn ogystal â'r rheiny sydd angen mynediad at wasanaethau megis cyngor, cefnogaeth frys, diogelwch a gwybodaeth am eu hawlau a'u hopsiynau.



Bydd pawb sy'n galw Llinell Gymorth Camdriniaeth yn y Cartref a Thrais Rhywiol Cymru Gyfan yn cael gwasanaeth o'r safon uchaf bob tro gan wybod cânt drafod eu pryderon yn hollol gyfrinachol.

Mae'r gwasanaeth ar gael yn rhad ac am ddim ar 0808 8010800 neu www.welshwomensaid.org.uk.

Swyddfa 5

Cymuned

Mae Cymuned yn fudiad sy'n gweithio o blaid cymunedau Cymru ac yn denant i Antur Nantlle ers mis Hydref 2011. Yn Nhŷ Iorwerth mae prif swyddfa'r mudiad ac mae'r Antur yn falch o allu cynnig cartref i fudiad sy'n gweithio o blaid cymunedau Cymreig.



Swyddfa 6

Cris Jones



Cris Jones sydd yn Swyddfa 6 yn cynnig gwasanaethau cyfieithu.

Mae Cris yn gwneud gwaith cyfieithu o bob math ac yn cynnig telerau rhesymol a gwasanaeth prydlon bob tro.

Ffoniwch Cris gyda'ch anghenion cyfieithu ar 01286 880444.

Swyddfa 7

Ymgyrch Cefnogi Nicaragua Cymru

Ben Gregory ac Ymgyrch Cefnogi Nicaragua Cymru yw ein tenant yn Swyddfa 7. Sefydlwyd yr ymgyrch ym 1986 i gefnogi pobl Nicaragua gyda'u dymuniad am fywyd gwell mewn amgylchiadau caled, ac mae'n parhau i weithio i gefnogi trigolion y wlad hyd heddiw.



Pwyllgor Diwydiant ac Economi Antur Nantlle

(Cadeirydd – Dafydd Owen)

Is-grwpiau'r pwyllgor yma sydd yn cyfarfod i drin a thrafod cynlluniau economaidd a chwilio am brosiectau newydd er budd Dyffryn Nantlle. Mae hi'n gyfnod anodd, sydd wedi gweld lleihad mewn grantiau sylweddol i gwmnïau fel yr Antur ond mae'r drafodaeth yn mynd yn ei blaen a'r dyhead am weld gwelliant economaidd i Ddyffryn Nantlle yn dal i sbarduno. Yr ydym yn barod i drafod gydag unrhyw un sydd â diddordeb mewn ymuno a ni neu sydd â gweledigaeth ac yn barod i weithio o'i wirfodd er lles yr ardal.

Mae tri prif grŵp wedi bod yn edrych ar gynlluniau eleni, sef y Grŵp Hydro, y Grŵp Twristiaeth a Grŵp y Fic.

Grŵp Ynni Adnewyddol Hydro Antur Nantlle (Cadeirydd – Dafydd Owen)

Ers 2009, gyda chefnogaeth Cronfa Datblygu Gwirfoddol Cyngor Gwynedd ac Ynni'r Fro, mae'r Antur wedi gweithio'n agos gyda nifer o arbenigwyr i gwblhau astudiaethau dichonoldeb, bywyd gwyllt, archeoleg, coed a mwy.

Rydym wedi gweithio o'r cychwyn cyntaf gyda phob asiantaeth berthnasol yn cynnwys Scottish Power, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, Cyfoeth Naturiol Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd. Mae pob cam yn y prosesau hyn yn cymryd amser ac nid gorchwyl hawdd oedd datblygu'r cynllun gan fod rheolau gwlad wedi eu newid ar hyd y ffordd.

Unig fwriad yr Antur gyda'r cynllun hwn oedd dod a budd economaidd sylweddol i'r ardal. Trwy gynhyrchu refeniw i'r Antur byddai wedi diogelu swyddi a chreu rhai newydd yn uniongyrchol, cynorthwyo busnesau lleol trwy baratoi rhagor o fannau gwaith am delerau rhesymol, ac arwain at ddatblygu cynlluniau economaidd eraill yn y dyfodol a fyddai'n gatalydd i greu mwy o swyddi. Byddai gwireddu'r prosiect hefyd wedi ein gallu i sefydlu cronfa grant leol i hybu busnesau newydd ac ariannu achosion gwerth chweil yn yr ardal leol.

Rydym wedi gweithio'n galed i symud y cynllun ymlaen hyd eithaf ein gallu, ond ni fydd modd i ni wireddu'r cynllun bellach wedi i Gyfoeth Naturiol Cymru roi trwydded i gynllun arall ar yr un afon.



Grŵp Twristiaeth Antur Nantlle (Cadeirydd – OP Huws)



Mae'r Antur yn ymwybodol iawn o'r diffyg mewn adnoddau a chyfleon i ddenu twristiaid i Ddyffryn Nantlle, ond yn teimlo fod gan yr ardal cymaint i'w gynnig i ymwelwyr.

Sefydlwyd y Grŵp Twristiaeth rhai blyneddau yn ôl i edrych ar gyfleon i ddatblygu'r ardal yn gyrchfan dwristiaeth, sydd gyda diwylliant Cymreig a'r iaith Gymraeg fel canolbwynt iddo.

Eleni, adeiladwyd ar yr astudiaethau a gomisiynwyd gan yr Antur, megis Astudiaeth ar Dwristiaeth yn Nyffryn Nantlle, Astudiaeth Dichonoldeb ar sefydlu Cynllun Llety Ymwelwyr a Chanolfan Gweithgareddau Awyr Agored Dyffryn Nantlle, a'r gwaith a wnaed o drafod datblygu gweithgareddau awyr agored gyda grwpiau sydd â diddordeb yn yr ardal.

Mewn cydweithrediad â nifer o grwpiau, sefydliadau a chymdeithasau lleol, mae'r Antur wedi bod yn gweithio ar gynllun Pecynnu'r Profiad i frandio a hyrwyddo'r ardal. Rydym hefyd wedi cydweithio'n agos gydag Uwch Warden Cefn Gwlad Cyngor Gwynedd – Mark Balaam – ar gynlluniau i hyrwyddo atyniadau lleol. Bydd ffrwyth y gwaith yma i'w weld yn yr ardal yn fuan iawn, felly cadwch lygad allan am baneli a phamphledi twristiaeth lliwgar yn llawn gwybodaeth, yn ogystal â gwefan dwristiaeth newydd sbon; rhywbeth mae Grŵp Twristiaeth Antur Nantlle wedi bod yn gweithio tuag ato ers tro.

Mae cydnabyddiaeth fod angen canolfan bwrpasol ar gyfer datblygu twristiaeth yn yr ardal, felly mae'r grŵp, mewn cydweithrediad â Menter Llyfni, hefyd wedi bod yn trafod gyda pherchennog Canolfan yr Ozanam yn Llanllyfni – Cymdeithas St. Vincent de Paul – i weld os oes modd prynu'r adeilad a datblygu canolfan wyliau bwrpasol yma.

Gweledigaeth y grŵp yw canolfan sy'n cynnwys gwesty, bwyty a chanolfan ddehongli treftadaeth a hanes lleol. Canolfan a fyddai'n ganolbwynt i adeiladu diwydiant twristiaeth o'i gwmpas, a cham cyntaf ond hollbwysig i gryfhau economi yr ardal a chreu swyddi da i bobl lleol.



Yn ddiweddar cafodd cynrychiolaeth o'r grŵp, ynghyd ag aelodau cwmnïau cymunedol lleol eraill sy'n ceisio hybu twristiaeth cynialadwy, wahoddiad ar daith i sir Mayo yng Ngorllewin Iwerddon gan wasanaeth twristiaeth Cyngor Gwynedd fel rhan o gynllun Interreg.



Mae ardal Westport wedi llwyddo i ddatblygu diwydiant twristiaeth byrlymus o amgylch llwybr cerdded a beicio sy'n rhedeg ar hyd llinell hen reilffordd am 42km. Cafwyd ysbrydoliaeth o weld holl fusnesau'r ardal yn cydweithio gyda'i gilydd fel rhan o strategaeth farchnata gryf a threfnus, ond gwell fyth oedd gweld fod rhinweddau naturiol Gwynedd, a Dyffryn Nantlle yn benodol, gan gynnwys ein rhwydwaith eang o lwybrau cerdded a beicio a golygfeydd o'r môr a mynyddoedd, yn cymharu'n ffaithiol iawn gyda'r rhai yn Iwerddon.

Y dasg i ni yn yr ardal hon yn awr yw cyfuno cryfderau pob busnes a sefydliad lleol fel ein bod yn gweithio tuag at yr un nod, ac hefyd i ddenu buddsoddiad sylweddol ar lefel gymharol i'n cyfeillion Gwyddelig fel bod modd gwireddu ein dyheadau a chynlluniau uchelgeisiol ar gyfer Dyffryn Nantlle.

Mae'r olwynion yn troi'n barod, ac mae'r grŵp yn gobeithio bydd camau mawr ymlaen yn cael eu cymryd yn y flwyddyn nesaf drwy gydweithio ar lefel strategol gyda Chyngor Gwynedd.

Grŵp Y Fic

Mewn ymateb i'r ffaith fod y Fic yn peri gofid i holl drigolion yr ardal ers blynnyddoedd, ac yn rhwystr pendant i ddatblygiadau eraill yn yr ardal, comisiynodd Antur Nantlle gwmni Ymgynghoriaeth MARC i baratoi astudiaeth ddichonoldeb. Ein gobaith oedd dod o hyd i gynllun hyfyw ar safle'r Fic a fyddai'n dod a budd economaidd i Ddyffryn Nantlle ac i roi diwedd ar broblem y Fic unwaith ac am byth.

Canfyddiad yr astudiaeth oedd mai'r cynllun mwyaf tebygol o lwyddo, a'r cyfuniad yr oedd mwyaf ei angen yn yr ardal oedd canolfan aml-dddefnydd yn cyfuno hwb gymunedol, pwynt gwybodaeth, siop goffi, bwyty, ystafell gyfarfod a hyfforddiant cyfrifiadurol, a swyddfeydd i asiantaethau sydd eu hunain â'r potensial i ddod a budd i'r ardal.



Ar sail argymhellion yr astudiaeth i sefydlu Canolfan Buddug, aethom ati i baratoi ceisiadau i nifer o wahanol arianwyr posib, ac ar hyn o bryd rydym yn aros i glywed os yw ein ceisiadau amlinellol wedi bod yn llwyddiannus. Rydym wedi bod yn llwyddiannus gydag un cais llawn, ond rydym angen sicrwydd o allu denu gweddill yr arian sydd ei angen cyn gallwn symud ymlaen.

Mae cyflwr yr adeilad yn parhau i ddirywio bob dydd, ac felly rydym dal i weithio tuag at ddatrys problem y Fic mewn unrhyw ffordd y gallwn.



Diwedd glo

Mae blwyddyn arall wedi mynd heibio. Hon yw'r ail i mi fel Prif Swyddog Antur Nantlle (ail ar hugain y cwmni) ac rwy'n mwynhau'r sialens ddyddiol sy'n perthyn i'r swydd. Rwy'n falch iawn o fod yn rhan o sefydliad sydd mor werthfawr i'r ardal, ac yn gobeithio fod fy nghyfraniad yn gwneud cyfiawnder â holl waith gwirfoddol y Cyfarwyddwyr, ar ran trigolion Dyffryn Nantlle.

Mae'r Antur yn edrych ymlaen at 2014 gyda sawl datblygiad cyffrous o fewn cyrraedd. Erbyn y cyfarfod blynyddol nesaf, ein gobaith yw y byddwn mewn sefyllfa i gynnig cyflogaeth newydd i berson lleol, drwy ddatblygu adeilad segur yn yr ardal a dod ag ef yn ôl i ddefnydd masnachol, yn ogystal â chymryd rheolaeth o safleoedd masnachol eraill. Drwy wneud hyn byddwn hefyd yn cynnig cyfleon newydd i entrepreneuriaid lleol, ac edrychwn ymlaen at gael bod o gymorth i bobl ifanc wrth iddynt sefydlu busnesau newydd yn Nyffryn Nantlle.

Gobeithio hefyd bydd modd i ni chwarae rhan mewn cadw gwasanaeth Swyddfa'r Post ym Mhenygroes, a datblygu cynllun i hybu'r diwydiant twristiaeth yn yr ardal, yn ogystal â datrys problem Y Fic.

Yr un yw nod yr Antur ers ei sefydlu yn ôl yn 1991, sef datblygu cynlluniau ddaw a gwelliannau economaidd a chymdeithasol i Ddyffryn Nantlle. Wrth gwrs mae gennym gyfrifoldebau eraill erbyn hyn sef gwarchod ein hadeiladau a'n tenantiaid – a chan fod ein ffiniau oddi mewn i ardal Dyffryn Nantlle mae'r gwaith hwn llawer yn haws a ninnau yn un teulu mawr.

Rydym wastad yma i wrando a thrafod syniadau – gweithio gyda'n gilydd fel cymuned yw'r ffordd orau i warchod a gwella ein cymunedau. Byddwn yn falch o glywed gan unrhyw un sydd â diddordeb mewn ymuno â ni i weithio er lles yr ardal.

Diolch,

Robat Jones

Prif Swyddog

Cyfrifon Blynnyddol Antur Nantlle Cyf 2012 – 2013

ANTUR NANTLLE CYF.

Rhif Y Cwmni : 2618216

CYFRIFON AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU MAWRTH 31, 2013

**A. HUGHES JONES DYSON A'U CWMNI
CYFRIFWYR SIARTREDIG
CAERNARFON**

ANTUR NANTLLE CYF.

Cynnwys	Tudalen
Adroddiad y Cyfarwyddwyr	1
Datganiad O Gyfrifoldebau'r Cyfarwyddwyr	2
Adroddiad Yr Archwilywyr	3
Cyfrif Incwm a Gwariant	4
Mantolen	5
Nodiadau	6 - 7
Cyfrif Incwm a Gwariant Manwl	8

ANTUR NANTLLE CYF.
Adroddiad Y Cyfarwyddwyr Am Y Flwyddyn Yn Diwedd Mawrth 31, 2013

Mae'r Cyfarwyddwyr yn cyflwyno eu hadroddiad blynyddol ynghyd a'r cyfrifon am y flwyddyn yn diwedd Mawrth 31, 2013.

Prif Weithgareddau

Prif weithgaredd y cwmni yw hybu gweithgareddau sydd er lles economaidd, cymdeithasol ac yr amgylchedd yn Dyffryn Nantlle.

Aelodau'r Bwrdd Rheoli

Aelodau'r Bwrdd Rheoli yn ystod y flwyddyn oedd:

Owen Pennant Huws	Ifan Glyn Jones
Talfryn Griffiths	Richard Wyn Huws
John Pritchard	Emrys Jones
Dafydd Owen	Myrddin Williams
Elwyn Jones Griffith	Craig ap Iago
Dyfed Wyn Edwards	Gwion Owain
Gwynne Williams	Owain Rowlands

Datganiad O'r Datgeliad Gwybodaeth i'r Archwilyr

Cyn belled a mae'r Cyfarwyddwyr yn ymwybodol, nid oes unrhyw wybodaeth sydd yn berthnasol i'r archwiliad (fel diffiniwyd gan Adran 418 o Ddeddf Cwmnïau 2006) nad yw archwilyr y Cwmni yn ymwybodol ohono, ac mae pob cyfarwyddwr wedi cymeryd y camau y dylent fel cyfarwyddwyr i wneud eu hunain yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth berthnasol i'r archwiliad ac i sefydlu y bod archwilyr y Cwmni yn ymwybodol o'r wybodaeth yma.

Archwilyr

Mae A. Hughes Jones Dyson a'u Cwmni wedi datgan eu parodrwydd i barhau yn eu swydd.

Mae'r adroddiad wedi cael ei baratoi ar sail y darpariathau arbennig sydd yn Rhan VII o Ddeddf Cwmnïau 2006 yn ymwneud a cwmnïau bach.

Dyddiad:

Awsst 1, 2013


 Ifan Glyn Jones
 Prif Weithgareddwyr y Bwrdd

ANTUR NANTLLE CYF.
Datganiad O Gyfrifoldebau'r Cyfarwyddwyr

Mae'r Cyfarwyddwyr yn gyfrifol am baratoi adroddiad y Cyfarwyddwyr ar datganiadau ariannol sy'n cydymffurfio gyda'r gyfraith a rheolau perthnasol.

O dan y Ddeddf Cwmnïau y mae yn ofynnol i'r Cyfarwyddwyr baratoi cyfrifon pob blwyddyn. O dan y ddeddf mae'r Cyfarwyddwyr wedi ethol i baratoi y datganiadau ariannol yn unol a Safonau Cyfrifyddol y Deyrnas Unedig (Arferion Cyfrifyddol sydd yn Gyffredinol Dderbyniol o fewn y Deyrnas Unedig). O dan gyfraith cwmnïau ni ddyliau y Cyfarwyddwyr gymeradwyo y datganiadau ariannol onid eu bod wedi eu bodloni eu bod yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa'r cwmni ac o'r gweddill neu'r diffyg am y cyfnod. Wrth baratoi'r datganiadau ariannol mae'n ofynol i'r cyfarwyddwyr:

- ddewis polisiau cyfrifyddol priodol a'u defnyddio'n gyson;
- gwneud dyfarniadau ac amcangyfrifon rhesymol;
- datgan os yw'r polisiau cyfrifyddol wedi eu dilyn, neu datgelu ac esbonio unrhyw ymadawiad materol yn y cyfrifon;
- paratoi'r cyfrifon ar y sail busnes byw os nad ydyw hi yn amhriodol i dybio fydd y cwmni yn parhau mewn busnes.

Mae cyfarwyddwyr yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddol sy'n dangos safle ariannol y cwmni a'u galluogi i sicrhau fod y cyfrifon yn cydsynio efo Deddf Cwmnïau 2006. Maent hefyd yn gyfrifol am ddiogelu asedau'r cwmni ac felly yn gyfrifol am rwystro a datgelu twyll ac unrhyw afreoleidd-dra arall.

Dyddiad:

Aws 1, 2013

Nan Glyn Jones
 Orwy orchymyn y bwrdd

Adroddiad Yr Archwilwyr Annibynnol At Aelodau Antur Nantlle Cyf.

Rydym wedi archwilio datganiadau ariannol Antur Nantlle Cyf am y flwyddyn yn diwedd Mawrth 31 2013 ar dudalennau 4 i 7. Mae'r datganiadau ariannol wedi eu paratoi yn unol a'r Safon Adrodd Ariannol i Unedau Llai (effeithiol Ebrill 2008), ac o dan y confensiwn cost hanesyddol ac yn ol y polisiau cyfrifyddol a restrir.

Mae'r adroddiad hwn wedi ei greu i aelodau y cwmni, fel corff, ac yn unol a Pennod 3, Rhan 16 o Ddeddf Cwmnïau 2006.

Mae ein gwaith archwilio wedi ei ymgymryd fel y gallwn adrodd i aelodau'r cwmni y materion hynny y mae'n ofynnol i ni adrodd iddynt mewn adroddiad archwilwyr ac i ddim pwrpas arall.

Hyd at yr eithaf a ganiatei'r trwy gyfraith, nid ydym yn derbyn na chymryd cyfrifoldeb i unrhyw un heblaw'r cwmni ac aelodau'r cwmni fel corff am ein gwaith archwilio, am yr adroddiad hwn, nac am y farn yr ydym wedi ei ffurfio.

Cyfrifoldebau'r Cyfarwyddwyr Ac Archwilwyr

Mae cyfrifoldebau'r cyfarwyddwyr am baratoi y datganiadau ariannol yn unol a rheolau cyfreithiol a Safonau Cyfrifyddol y Deyrnas Unedig (Arferion Cyfrifyddol sydd yn Gyffredinol Dderbyniol o fewn y Deyrnas Unedig) wedi eu mynegi yn y datganiad o gyfrifoldebau'r Cyfarwyddwyr.

Ein cyfrifoldeb ni yw archwilio'r cyfrifon yn unol a gofynion cyfreithiol a rheolau perthnasol a Safonau Archwilio Rhyngwladol (Y Deyrnas Unedig ac Iwerddon). Mae'r safonau yma yn gofyn i ni gydymffurfio gyda safonau moesegol i archwilwyr sydd wedi eu penodi gan y Bwrdd Ymarferion Archwilio, gan gynnwys 'safonau moesegol Bwrdd Ymarferion Archwilio - Darbodion ar gael i Gwmnïau Llai (Diwygiedig)', yn yr amgylchiadau sydd wedi eu nodi yn nodyn 1 o'r datganiadau ariannol.

Sail yr archwiliad or datganiadau ariannol

Mae archwiliad yn cynnwys cael tystiolaeth berthnasol i'r symiau a'r datgeiliadau yn y cyfrifon sy'n ddigonol i roi sicrwydd rhesymol fod y datganiadau ariannol yn rhydd o gam-ddatganiadau sylweddol, a fyddai wedi'u achosi gan dywyll neu gamsyniad. Mae hyn yn cynnwys asesiad o'r; amcangyfrifon a'r barnau arwyddocaol a wnaed gan y cyfarwyddwyr wrth baratoi'r cyfrifon gan ystyried a yw'r polisiau cyfrifyddol yn briodol i amgylchiadau'r cwmni, ac yn cael e'u gweithredu'n gyson a'u datgelu'n ddigonol; yn ogystal a gwedd gyffredinol y datganiadau ariannol. Yn ogystal, rydym yn darllen y gwybodaeth ariannol ac arall yn adroddiad y cyfarwyddwyr er mwyn datgelu unrhyw anghysondeb sylweddol i'r cyfrifon rydym yn eu harchwilio. Os i ni ddod ar draws anghysondeb neu gam-ddatganiad sylweddol, mi fyddwn yn ystyried y goblygiadau ar gyfer ein adroddiad.

Barn ar y datganiadau ariannol

Yn ein barn mae'r cyfrifon yn:

- rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa'r cwmni ar Fawrth 31, 2013 ac o'r gweddill ar gyfer y flwyddyn oedd yn terfynu y pryd hynny;
- wedi eu paratoi yn unol ac Arferion Cyfrifyddol sydd yn Gyffredinol Dderbyniol o Fewn y Deyrnas Unedig sy'n berthnasol i Unedau Llai; ac
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol ag amodau Deddf Cwmnïau 2006.


Barn ar faterion a benodwyd gan Ddeddf cwmnïau 2006

Yn ein barn mae'r wybodaeth a roddir yn Adroddiad Y Cyfarwyddwr am y flwyddyn ariannol sy'n berthnasol i'r flwyddyn mae'r datganiadau ariannol wedi eu paratoi yn gyson gyda'r datganiadau ariannol.

Materion mae'n orfodol i ni adrodd arnynt mewn eithriad

Nid oes gennym ddim i'w adrodd ar y materion canlynol ble mae'r Ddeddf Cwmnïau 2006 yn ein gofyn i ni adrodd i chi os yn ein barn:

- nad yw'r cwmni wedi cadw cofnodion cyfrifyddol digonol, neu nid ydym wedi derbyn yr holl wybodaeth ac eglurhad oddiwrth ganghenau nad ydym wedi ymweld a hwy; neu
- nid yw'r datganiadau ariannol yn gytun ar cofnodion ariannol; neu
- bod datguddiadau sy'n ofynol dan gyfraith cwmnïau yn berthnasol i enillion cyfarwyddwyr heb eu datgelu; neu
- nid ydym wedi derbyn yr holl wybodaeth ac eglurhad sydd ei angen er mwyn cwblhau ein archwiliad; neu
- nid oedd y cyfarwyddwyr yn deilwng i baratoi'r cyfrifon ac Adroddiad y Cyfarwyddwyr yn unol a rheolau cwmnïau bach.


Mr Brian Hughes (Prif Archwiliwr Statudol)
ar ran A. Hughes Jones Dyson a'u Cwmni
Archwilwyr Statudol a Cyfrifwyr Siartredig

Dyddiad: 1-8-2013

ANTUR NANTLLE CYF.
Cyfrif Incwm A Gwariant Am Y Flwyddyn Yn Diweddu Mawrth 31, 2013

		Gweithrediadau Parhaol 2013	Gweithrediadau Parhaol 2012
	Nodiadau	£	£
Incwm		82,400	75,487
Gwariant		<u>(80,530)</u>	<u>(75,647)</u>
Incwm Sy'n Weddill	2	1,870	(160)
Llog Derbyniadwy		<u>58</u>	<u>59</u>
Gweddill/(Diffyg) Cyn Trethiant		1,928	(101)
Trethiant	3	<u>(12)</u>	<u>(12)</u>
Gweddill/(Diffyg) Ar Ol Trethiant		1,916	(113)
Gweddill Ddygwyd Ymlaen		<u>120,166</u>	<u>120,279</u>
Gweddill Cariwyd Ymlaen		<u>122,082</u>	<u>120,166</u>

ANTUR NANTLLE CYF
Mantolen Ar Fawrth 31, 2013

	Nodiadau	2013		2012	
		£	£	£	£
Asedau Sefydlog					
Asedau Cyffyrddadwy	4		275,379		300,343
Asedau Cyfredol					
Dyledwyr	5	18,285		6,572	
Arian Yn Y Banc Ac Mewn Llaw		<u>87,685</u>		<u>94,256</u>	
		105,970		100,828	
Credydwyr: symiau sy'n ddyledus o fewn y flwyddyn	6	<u>(9,682)</u>		<u>(9,712)</u>	
Asedau Cyfredol Net			<u>96,288</u>		<u>91,116</u>
Cyfanswm Asedau Llai					
Rhwymedigaethau Cyfredol			371,667		391,459
Croniadau Ac Incwm Gohiriedig	7		(249,585)		(271,293)
			<u>122,082</u>		<u>120,166</u>
Cronfeydd			<u>122,082</u>		<u>120,166</u>

Mae'r cyfrifon wedi cael eu paratoi ar sail y darpariaethau arbennig sydd o fewn Rhan 15 o Ddeddf Cwmniau 2006 yn ymwneud a cwmniau bach ac yn unol a'r Safon Adrodd Ariannol i Unedau Llai (effeithiol Ebrill 2008).

Iwan Glyn Jones Cyfarwyddwr

John H. H. H. H. Cyfarwyddwr

Awsst 1, 2013 Dyddiad

Rhif Cwmni: 2618216

ANTUR NANTLLE CYF.
Nodiadau i'r Cyfrifon Am Y Flwyddyn Yn Diwedd Mawrth 31, 2013

1 Polisiau Cyfrifyddol

Y sail gyfrifyddol

Mae'r datganiadau ariannol wedi eu paratoi o dan y confensiwn cost hanesyddol ac yn unol a'r Safon Adrodd i Unedau Llai.(Effeithiol Ebrill 2008)

Asedau sefydlog cyffyrddadwy

Fe gynhwysir asedau sefydlog cyffyrddadwy yn ol eu cost.

Fe ddibrisir yr asedau dros amcangyfrifiad o'u hoes economaidd defnyddiol fel a ganlyn:

- Tir ac adeiladau - 4% o'r gost pob blwyddyn
- Offer - 20% drwy'r dull mantol yn lleihau
- Cyfrifiaduron - 25% drwy'r dull mantol yn lleihau

Mae gwariant ar itemau cyfalaf llai £100 yn cael ei trin fel gwariant yn y flwyddyn.

Grantiau

Mae grantiau sy'n ymwneud ag asedau sefydlog yn cael eu gosod mewn cyfrif incwm gohiriedig. Fe ryddheir swm yn flynyddol i'r cyfrif incwm a Gwariant sy'n cyfateb i'r dibrisiant a ddarparwyd ar gyfer yr asedau perthnasol.

Archwilwyr

Yn gyffredin a nifer o fusnesau o'n maint a natur, rydym yn defnyddio ein archwilwyr i baratoi a chyflwyno ffurflenni priodol i'r awdurdodau treth ag i'n cynorthwyo gyda'r gwaith o baratoi y datganiadau ariannol.

2 Incwm Sy'n Weddill

Mae'r incwm sy'n weddill ar ol;

	2013 £	2012 £
<i>Rhoi credyd am;</i>		
Incwm Gohiriedig a ryddhawyd	<u>21,708</u>	<u>21,708</u>
<i>Ac ar ol codi am:</i>		
Dibrisiant	24,964	25,253
Archwilio	<u>1,890</u>	<u>1,850</u>

3 Treth Gorfforaeth

	£	£
Darpariaeth am y Flwyddyn	<u>12</u>	<u>12</u>

ANTUR NANTLLE CYF.

7

4 Asedau Sefydlog Cyffyrddadwy

	Tir Rhydd-ddaliad		
	Ac Adeiladau	Offer	Cyfanswm
	£	£	£
Cost			
Ar Ebrill 1af 2012	605,713	24,561	630,274
Ychwanegiadau	-	-	-
Ar Fawrth 31 2013	<u>605,713</u>	<u>24,561</u>	<u>630,274</u>
Dibrisiant			
Ar Ebrill 1af 2012	308,971	20,960	329,931
Codiant am y flwyddyn	24,228	736	24,964
Ar Fawrth 31 2013	<u>333,199</u>	<u>21,696</u>	<u>354,895</u>
Gwerth Ar Bapur Net			
Ar Fawrth 31 2013	<u>272,514</u>	<u>2,865</u>	<u>275,379</u>
Ar Fawrth 31 2012	<u>296,742</u>	<u>3,601</u>	<u>300,343</u>

5

Dyledwyr	2013	2012
	£	£
Dyledwyr Eraill	13,335	2,648
Rhagdaliadau ac incwm a gronwyd	<u>4,950</u>	<u>3,924</u>
	<u>18,285</u>	<u>6,572</u>

6

Credydwy: symiau sy'n ddyledus o fewn y flwyddyn	£	£
Credydwy eraill	6,828	6,583
Treth Gorfforaeth	12	12
TAW	<u>2,842</u>	<u>3,117</u>
	<u>9,682</u>	<u>9,712</u>

7

Croniadau Ac Incwm Gohiriedig	£
Ar Ebrill 1af, 2012	271,293
Swm a Rhyddhawyd	21,708
Ar Fawrth 31, 2013	<u>249,585</u>

ANTUR NANTLLE CYF.
Cyfrif Incwm A Gwariant Am Y Flwyddyn Yn Diweddu Mawrth 31, 2013

	2013		2012	
	£	£	£	£
Incwm				
Gwasanaethau		7,893		6,107
Rhent Canolfan Fenter		14,550		13,789
Rhent Swyddfeydd		32,788		36,013
Rhent Stryd y Wyddfa		7,164		7,716
Rhent Llyfrgell		6,000		6,000
Hysbysu ar y Wefan		210		737
Grantiau prosiectau		10,906		2,468
Rhoddion		100		-
Incwm Arall		<u>2,789</u>		<u>2,657</u>
		82,400		75,487
Gwariant				
Grantiau Cyfalaf Yn Cael Eu Rhyddhau	(21,708)		(21,708)	
Cyflgau	35,560		37,852	
Costau Pensiwn	852		1,083	
Costau Swyddfa	336		2,094	
Llogi Offer	458		468	
Costau wefan	-		1,208	
Ffon	539		952	
Hysbysebu	546		1,184	
Costau Cynnal A Chadw	14,237		7,421	
Gwres a Goleuo	5,775		6,267	
Trethi	1,411		1,271	
Yswiriant	4,550		5,865	
Costau Archwilio	1,890		1,850	
Costau Proffesiynol	10,158		3,298	
Costau Banc	369		300	
Manion	593		989	
Dibrisiant Ar Adeiladau	24,228		24,228	
Dibrisiant Ar Offer	<u>736</u>		<u>1,025</u>	
		80,530		75,647
Gweddill/(Diffyg) am y flwyddyn		<u>1,870</u>		<u>(160)</u>



Canolfan Dechnoleg Antur Nantlle
20 Heol y Dŵr
Penygroes
Caernarfon
Gwynedd
LL54 6LR

01286 882688

post@anturnantlle.com

www.anturnantlle.com

www.facebook.com/anturnantlle

